Tŷ ac Ystâd Llannerchaeron

Llanerchaeron House and Estate



Argraffiad dros dro 1948, map 6 modfedd yr Arolwg Ordnans o Llanddewi Aber-arth, Sir Aberteifi XXV NW

Provisional edition 1948, Ordnance Survey 6 inch map of Llanddewi Aberarth, Cardiganshire XXV NW

Yn Nyffryn Aeron, mae Tŷ Llannerchaeron 3 chilometr i'r de-ddwyrain o dref glan-môr Aberaeron. Mae'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn enghraifft brin o ystâd hunanddigonol o'r ddeunawfed ganrif. Mae tystiolaeth yno sy'n awgrymu i blasty cynharach fod ar yr un safle ac iddo gael ei ddymchwel cyn codi Tŷ Llannerchaeron. Heddiw, defnyddir prif fferm yr ystâd yn fferm organig i fagu Gwartheg Duon Cymru, defaid Llanwenog a moch prin o Gymru arni. Mannau braf i grwydro o'u hamgylch yw'r llyn, y gerddi a'r parcdir o gwmpas y tŷ.

Llanerchaeron House, a National Trust property, is a rare example of a self-sufficient eighteen-century estate located within the valley of the Aeron river, 3 kilometers south-east of the coastal town of Aberaeron. There is evidence to suggest that an earlier mansion existed on the same site and was demolished prior to the building of Llanerchaeron House. The Home Farm complex of today is used as a working organic farm rearing Welsh Black Cattle, Llanwenog sheep and rare Welsh pigs. The ornamental lake, pleasure grounds and parkland which surround the House provide ideal walking locations.

Chwith: Sylwch ar y rheilffordd ger Tŷ Llannerchaeron. Adeiladwyd y lein rhwng Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron ym 1911 yn gangen o'r rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth. Dim ond am ddeugain mlynedd y parodd y gwasanaethau i deithwyr ac fe'u diddymwyd mor gynnar â 1951. Daliodd y gwasanaethau nwyddau i redeg am bedair blynedd ar ddeg wedi hynny.

Left: Notice the railway line running close to Llanerchaeron House. This branch line was constructed between Lampeter and Aberaeron in 1911 as part of the Carmarthen to Aberystwyth railway line. Passenger services lasted only forty years and were withdrawn as early as 1951, while freight continued for a further fourteen years.

Uchod: Tŷ Llannerchaeron ym 1997. Cafodd ei gynllunio a'i godi gan John Nash ym 1794, a'r fila hon yw'r enghraifft fwyaf cyflawn o'i waith cynnar. Cyn gweithio ar Lannerchaeron, bu wrthi'n cynllunio carchardai yn Aberteifi, Henffordd a Chaerfyrddin.

Above: Llanerchaeron House in 1997, designed and built by John Nash in 1794. This eighteen-century villa is the most complete example of his early work; prior to his work at Llanerchaeron Nash also designed gaols at Cardigan, Hereford and Carmarthen.

Uchod: Mae cwrt Tŷ Llannerchaeron (a) yn cynnwys llaethdy, golchdy, bragdy a chwt halltu (b), a gerddi muriog y gegin (c). Yn yr adeiladau o amgylch y cwrt mae gwasg gaws wreiddiol o lechi, a phedyll hufen. Mae'n fwy na thebyg mai John Nash a ailwampiodd gynllun Eglwys y Santes Non (d), eglwys y plwyf. Fferm organig yw'r brif fferm (e).

Above: Llanerchaeron House (a) has its own service courtyard with dairy, laundry, brewery and salting house (b), and walled kitchen gardens (c). In the buildings grouped around the service courtyard there are original slate-made cheese presses and cream pans. The parish Church of St Non Church (d) was most likely redesigned by John Nash. The Home Farm complex (e) is a working organic farm.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
National Monuments Record of Wales

Cysylltwch â: CBHC, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ
Contact: RCAHMW, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

Ffôn: 01970 621200
Telephone: 01970 621200

Gwefan: www.cbhc.gov.uk
Website: www.rcahmw.gov.uk